

Croeso i'n newyddlen sy'n dod â'r diweddaraf i chi gan Uchelgais Gogledd Cymru a Chynllun Twf Gogledd Cymru. Os hoffech chi gael gwybodaeth bellach am ein gwaith, cysylltwch â gwyb@uchelgaisgogledd.cymru.

## PWY YDYN NI?

Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn fuddsoddiad o £1bn yn economi'r rhanbarth, gyda £240m ohono wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau am y Cynllun Twf, ac mae'n bartneriaeth rhwng y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru a sefydliadau addysgol y rhanbarth. Mae'n cael ei gefnogi gan swyddfa portffolio Uchelgais Gogledd Cymru.




**Eisiau rhagor o wybodaeth am ein gwaith a'r hyn rydyn ni'n bwriadu ei gyflawni? Gwyliwch ein fideo yma**

## DATHLU LLWYDDIANNAU 2023/24

Mae ein hadroddiad blynyddol ar gael ar ein gwefan, ac yn amlygu ein llwyddiannau dros y flwyddyn. Cliciwch y botwm isod i weld yr adroddiad yn llawn.

Darllen mwy





## CYNNYDD YN Y PROSIECT ADEILADU CYNTAF

Yn gynnar yn 2024, y Ganolfan Opteg a Pheirianneg a Menter oedd prosiect cyntaf y Cynllun Twf i gyrraedd y cam adeiladu – ac mae'n datblygu'n gyflym!

Fe fydd hwn yn adeilad arloesol ym Mhrifysgol Wrecsam, ac yn darparu cyfleusterau arbenigol ar gyfer ymchwil, cydweithio gyda busnesau a datblygu sgiliau.

Bydd pwyslais y ganolfan ar opteg, ffotoneg a chefnogi busnesau gweithgynhyrchu i leihau effaith amgylcheddol eu cynnyrch a'u prosesau. Darganfod mwy



# CRYFHAU GWASANAETHAU DIGIDOL

Mae mynd i'r afael â 'mannau gwan' o ran derbyniad ffôn symudol a chryfhau band llydan i fusnesau a chymunedau yn flaenoriaeth i ni.

## PROSIECT 4G+

Mae'r Bwrdd Uchelgais Economaidd wedi cymeradwyo yr achos busnes amlinellol ar gyfer y prosiect hwn, sy'n gam ymlaen wrth fynd i'r afael â heriau cysylltedd yng Ngogledd Cymru. Y nod yw cryfhau gallu'r ardal i ddatblygu technoleg yn y dyfodol, a denu buddsoddiad. Darllenwch y stori lawn yma.

## CRONFA BAND EANG LLEOL

Rydym wedi arwain a chwblhau'r prosiect Band Eang Lleol, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Llwyddodd y gwaith i uwchraddio cysylltiadau band eang i 17 o safleoedd awdurdodau lleol a iechyd yn Wrecsam, Gwynedd, Sir y Fflint,  Sir Ddinbych a Chonwy, gan gynnwys llyfrgelloedd a neuaddau pentref mewn ardaloedd allweddol.

## CYSYLLTEDD DIGIDOL GWLEDIG

Rydym yn falch o fod yn gweithio ochr yn ochr ag Annog Cyf i hyrwyddo ffrydiau ariannu a chefnogi cymunedau gwledig i wella cysylltedd ar draws y rhanbarth.

Mae'r prosiect wedi'i ariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin a'i arwain gan Uchelgais Gogledd Cymru.



## CYNGOR AR DECHNOLEG I FUSNESAU

Mae prosiect wedi ei lansio sy'n rhoi cyngor ac arweiniad i fusnesau bach a chanolig (SMEs) ar sut i wneud y mwyaf o'r dechnoleg cyfathrebu digidol diweddaraf.

Wedi'i arwain gan Uchelgais Gogledd Cymru, ei ariannu gan Gronfa Ffyniant Cyffredin, a'i ddarparu gan BIC Innovation gydag Intelligens Consulting, bydd y cynllun Asesiadau Cysylltedd (SME) yn cefnogi 20 o fusnesau yng Nghonwy, Ynys Môn, Gwynedd, Sir y Fflint a Sir Ddinbych.

Mae'r ceisiadau'n cau ar 19 Gorffennaf, felly bydd angen i'r busnesau sydd â diddordeb anfon e-bost at info@bic-innovation.com i gael rhagor o fanylion.

# AR DRYWYDD GYRFA

Er mwyn helpu pobl ifanc i wneud penderfyniadau am eu llwybr gyrfa yn y dyfodol, mae pecyn cymorth wedi cael ei ddatblygu gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru (PSRh).

Nod y pecyn hefyd yw darparu gwybodaeth bwysig i rieni, athrawon a chynghorwyr gyrfa fel y gallent gefnogi myfyrwyr wrth iddynt benderfynu ar eu camau nesaf.

Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys cynllun sgiliau, fideo wedi'i animeiddio, astudiaethau achos ysgrifenedig a fideos gan bobl sy'n rhannu eu profiadau.



# CEFNOGAETH YSGRIFENNU BID

Mae sefydliadau cymunedol a mentrau bach yng Ngogledd Cymru yn cael eu hannog i edrych ar ein cynllun newydd sy'n darparu cymorth i ysgrifennu bid ar gyfer prosiectau ynni glân.

Nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael, a bydd ceisiadau'n cau ar 30 Awst, felly am ragor o wybodaeth a manylion cymhwysedd, ewch i - Grant Cymorth Ysgrifennu Bid.

# AIL SEFYDLU SAFLE WRTH GALON CYMUNED DINBYCH

Mae gwaith i drawsnewid cyn safle Ysbyty Gogledd Cymru yn symud ymlaen er mwyn darparu cyflogaeth a chartrefi i bobl leol.

Mae'r prosiect gwerth £107m, yn cael ei gyflawni gan Jones Bros, gyda'r bwriad o ailddatblygu ac adfywio'r safle 53-erw sydd wedi dirywio yn sylweddol dros y blynyddoedd.

Mae'r cynllun yn cynnwys adfer adeilad rhestredig Gradd 2*, datblygu cartrefi newydd a dros 1,000m2 o unedau masnachol, yn ogystal â chreu mannau gwyrdd cymunedol.

Mae'r datblygiad wedi'i gynllunio i sicrhau 360 o gyfleoedd prentisiaeth wedi'u cefnogi gan gyfleusterau hyfforddiant newydd ar y safle, yn ogystal â 70 o swyddi llawn-amser erbyn 2035.



